Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

17 Ionawr, 2025

TEITL: Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyo penodi'r chwe Chynghorydd enwebedig o bob Cyngor cyfansoddol fel Aelodau cyfetholedig (sydd â phleidlais) o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.2. Cymeradwyo penodi tri aelod lleyg i gael eu cyfethol (a chanddynt bleidlais) i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 2. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

2.1. Mae'n ofynnol i'r CBC sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â pharagraff 16 o Atodlen 1 Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 (Rheoliadau Sefydlu). Mae'r cyfrifoldeb i benodi Aelodau yn eistedd gyda'r CBC.

## 3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Mae'n rhaid i'r CBC sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae gan yr Is-bwyllgor y swyddogaethau canlynol fel y nodir yn Rheoliadau 2021:

- adolygu a chraffu materion ariannol yr awdurdod;
- gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;
- adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod;
- gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
- adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol;
- llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol;
- goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- adolygu'r datganiadau ariannol a baratoir gan yr awdurdod.

3.2. Mae'r Canllawiau statudol (ac anstatudol) cyfunol a fwriedir i gefnogi prif gynghorau yn berthnasol yn yr un modd i'r CBC. Mae'r Canllawiau hyn yn datgan, er mwyn cwrdd â gofynion dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mai barn Llywodraeth Cymru yw bod pwyllgorau llywodraethu ac archwilio sy'n gweithredu'n dda yn hanfodol i lywodraethiant effeithiol

cynghorau (a chyd-bwyllgorau corfforedig). Dylent gael eu hystyried yn rhywbeth positif gan holl aelodau'r cyngor (CBC) fel rhan o'r system wella a llywodraethu. Mae ganddynt hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth wella cynllunio strategol a hwyluso craffu a her adeiladol o fewn strwythurau cyngor. Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol CBC y Gogledd.

3.3. Mae gan yr Is-bwyllgor bwerau penodol a amlinellir yn Rheoliadau 2021 ac a adlewyrchir yn ei Gylch Gorchwyl i adolygu a chraffu materion ariannol y CBC, adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol. Heb Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd â chyfansoddiad priodol, ni fydd modd gweithredu'r swyddogaethau hyn sy'n hanfodol i ddal y CBC i gyfrif.

3.4. Mae'r CBC wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor hwn ac wedi cytuno y bydd yna naw aelod o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda chwe aelod o'r Cynghorau Cyfansoddol, a thri aelod (lleyg) annibynnol, yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a nodir yn y Rheoliadau Sefydlu (para.16(2) Rheoliadau 2021). Ar ôl ymarfer enwebu gan y Cynghorau, mater i'r CBC yw penodi'r aelodau'n ffurfiol, a fydd oll yn cael eu cyfethol ar yr Is-bwyllgor.

3.5. Gofynnwyd i bob Cyngor Cyfansoddol gynnal ymarferiad enwebu er mwyn canfod dau aelod i eistedd ar yr Is-bwyllgor, y prif aelod arweiniol ac eilydd. Gofynnwyd iddynt hefyd enwebu aelod lleyg o bob un o'u Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio. Pe na bai unrhyw enwebiadau am aelod lleyg, byddai'n rhaid i'r CBC gynnal ymgyrch hysbysebu allanol gyhoeddus. Mae'n rhaid i aelodau lleyg fod yn annibynnol o'r CBC a heb fod ag unrhyw gysylltiad busnes gydag ef, ac er na thybir bod gwybodaeth am lywodraeth leol yn gwbl angenrheidiol, disgwyliwyd y byddai gan enwebeion ddiddordeb mewn materion yn ymwneud â'r sector cyhoeddus ac archwilio.

3.6. Caiff aelodau a enwebir eu penodi am gyfnod eu penodiad ar bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio eu Cyngor Cyfansoddol neu'r Cyngor, pa un bynnag yw'r byrraf, neu tan mae'r enwebai yn ymddiswyddo. Penodir aelodau lleyg am bedair blynedd, a gellir adnewyddu hyn am un cyfnod arall o bedair blynedd yn unig, neu hyd nes byddant yn ymddiswyddo. Bydd yr holl Aelodau'n cael eu cyfethol ar yr Is-bwyllgor, yn cwblhau hyfforddiant a bydd disgwyl iddynt fynychu cyfarfodydd ffurfiol fydd yn cael eu cynnal o bell. Yn unol â'r Canllawiau Statudol mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Aelodau'r Is-bwyllgor eu hunain sy'n penderfynu ar Gadeirydd yr Is-bwyllgor, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg. Mae gan yr holl Aelodau yr hawl i siarad a phleidleisio.

3.7. Ar 6 Medi 2024 cymeradwyodd y CBC fabwysiadu cyfradd fesul awr mewn perthynas â Phenderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer aelodau lleyg gaiff eu cyfethol. Mae hyn yn golygu y bydd aelodau lleyg yn gallu hawlio tâl mewn perthynas â pharatoi at a mynychu cyfarfodydd ffurfiol o £29.75 yr awr, hyd at 4 awr am £119, a thros 4 awr mae'r gyfradd yn £238. Gall y Cadeirydd hawlio £33.50 yr awr, hyd at 4 awr am £134, a thros 4 awr mae'r gyfradd yn £268. Mae'r tâl hwn i'w dalu gan y CBC.

3.8. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r enwebiadau ar gyfer penodi i'w cyfethol ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y CBC, a gofynnir i'r CBC gymeradwyo'r argymhelliad a nodir ym mharagraff 1 uchod:

| Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | | |
|---|---|---|
| **Cyngor** | **Aelodaeth Etholedig** | **Aelodaeth Lleyg** |
| Conwy | Y Cyng. Gareth Jones<br>Y Cyng. Stephen Price (eilydd) | (cefnogwyd Nigel Rudd) |
| Sir Ddinbych | Y Cyng. Carol Holliday<br>Y Cyng. Bobby Feeley (eilydd) | Nigel Rudd |
| Sir y Fflint | Y Cyng. Andrew Parkhurst<br>Y Cyng. Ted Palmer (eilydd) | (dim penodiad) |
| Wrecsam | Y Cyng. Paul Rogers<br>Y Cyng. Trevor Bates (eilydd) | (cefnogwyd Carys Edwards) |
| Gwynedd | Y Cyng. Ioan Thomas<br>Y Cyng. Richard Glyn Roberts (eilydd) | Carys Edwards |
| Ynys Môn | Y Cyng. Geraint Bebb<br>Y Cyng. Keith Roberts (eilydd) | Sharon Warnes |

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Templed o gytundebau cyfethol ar gyfer aelodau'r Cyngor, eilyddion ac aelodau lleyg

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae'r CBC eisoes wedi cymeradwyo tâl aelodau lleyg mewn cyfarfod blaenorol.  Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."